



Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Canllaw cymhwysedd ar gyfer gwiriadau cofnodion troseddol

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cyhoeddi tystysgrifau cofnodion troseddol ar gyfer cyfrifoldebau penodol, proffesiwn, cyflogaeth, swyddogaethau, gweithfeydd a thrwyddedau sy'n cael eu cynnwys yn Rhybudd (Eithriadau) 1975 Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974.

Ni all unigolion a'r hunangyflogedig ymgeisio am wiriad yn uniongyrchol i'r DBS.

Bydd cais am wiriad DBS yn cael ei wneud fel rhan o wiriadau gan sefydliad yn dilyn cynnig swydd ond cyn cychwyn gweithio, gan gynnwys rolau gwirfoddoli a cheisiadau am drwyddedau penodol. Os gofynnwyd i chi ymgeisio am wiriad a'ch bod yn ansicr sut i wneud hynny, siaradwch â'ch cyflogwr.

Bydd y DBS yn hidlo rhai troseddau hen a dibwys penodol oddi ar y tystysgrifau cofnodion troseddol a gyhoeddwyd o 29 Mai 2013. Cyflwyno newidiadau yn y ddeddfwriaeth a alluogodd i ni wneud hyn. Cliciwch [yma](#) am ragor o wybodaeth ynglŷn â hidlo gwybodaeth droseddol.

Sylwch, o ganlyniad i'r newidiadau yn y ddeddfwriaeth, newidiwyd y rhifau cyfeirnod yn yr Atodiad a byddant yn destun newidiadau pellach yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau Cyfreithiol

Cyn i sefydliad ystyried gofyn i unigolyn ymgeisio am wiriad DBS, yn gyfreithiol rhaid i'r sefydliad hwnnw sicrhau bod ganddo'r hawl i gyflwyno gwiriad am rôl y swydd honno. Golyga hyn, os ydych chi'n swyddog cydlofnodi rhaid i chi'n bersonol fod yn fodlon bod y swydd yn gymwys dan ddarpariaethau cyfreithiol cyfredol cyn i chi gydlofnodi'r ffurflen gais, ac unrhyw gais arall.

Mae'r Atodiad yn disgrifio'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau mwyaf cyffredin a gyflwynwyd sy'n wybyddus fel yr eithriadau i'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Dylid nodi nad yw hon yn restr gyflawn.

Mathau o wiriadau DBS sydd ar gael

- **Gwiriadau safonol** - I fod yn gymwys ar gyfer gwiriad DBS lefel safonol mae'n **rhaid** bod y swydd wedi'i chynnwys yng Ngorchymyn (Eithriadau) 1975 Deddf Adfer Troseddwyr 1974.
- **Gwiriadau manwl** - I fod yn gymwys ar gyfer gwiriad DBS lefel manwl **rhaid** bod y swydd wedi'i chynnwys yng Ngorchymyn Eithriadau Deddf Adfer Troseddwyr **ac** yn Rheoliadau (Cofnodion Troseddol) Deddf yr Heddlu 1997 fel ei gilydd.
- **Gwiriadau manwl gyda gwiriad(au) rhestr gwahardd ar gyfer plant ac/neu oedolion** - I fod yn gymwys i ofyn am wiriad o restrau gwahardd ar gyfer plant neu oedolion **rhaid** bod y swydd yn gymwys ar gyfer gwiriad DBS lefel manwl fel yr uchod **ac** wedi ei rhestru'n benodol yn Rheoliadau (Cofnodion Troseddol) Deddf yr Heddlu 1997 er mwyn medru gwirio'r rhestr(au) gwahardd.

Gallwch gael mynediad at Reoliadau (Cofnodion Troseddol) Deddf yr Heddlu 1997 drwy chwilio amdanynt ar [Legislation.gov.uk](#). Ni fydd hyn yn rhoi rhestr o rolau'r swyddi i chi - nid yw rhestr o'r fath yn bodoli. Yn hytrach gellir agor pob Rheoliad i adnabod pa rolau, dyletswyddau neu weithgareddau sydd wedi eu cynnwys o'r dyddiad y daeth y Rheoliad i rym. Mae'n bwysig nodi y gall Rheoliadau ddileu rolau, dyletswyddau neu weithgareddau hefyd.



Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Ymholiad cymhwysedd ymgeisio

Os bu gofyn i chi gwblhau a chyflwyno ffurflen gais DBS, ond eich bod yn ansicr a yw'r cyfrifoldeb yr ymgeisiwch amdano'n gymwys ar gyfer gwiriad cofnod troseddol, gallwch gysylltu â'r DBS i ganfod hynny.

Gyrrwch e-bost gyda'r teitl hwn yn llinell pwnc y neges: **Ymholiad Cymhwysedd Ymgeisio - Brys** i : customerservices@db.sgs.gov.uk dylech gynnwys eich enw llawn, dyddiad geni, enw'r sefydliad a ofynnodd i chi gael tystysgrif DBS, manylion y swydd yr ymgeisir amdani, a rhif ymgeisio'r ffurflen cyn gynted â phosibl.

Er mwyn cwblhau ymchwiliad llawn gall y DBS orfod cysylltu â'r sefydliad perthnasol i ofyn iddynt egluro eu rhesymau am fynnu eich bod yn cyflwyno cais DBS. Os ydych yn fodlon rhoi eich caniatâd, gallwn gyfeirio at eich cais penodol er mwyn galluogi i'r DBS a'r sefydliad drafod y mater cymhwysedd neu gallwn gysylltu â'r sefydliad i drafod y cais a gyflwynwyd heb gyfeirio at eich ymholiad.

Mae gennych hawl i ofyn i'r DBS beidio â phrosesu'r cais hwn dan Ddeddf Diogelu Data 1998, egwyddor 6 "*Dylid prosesu Data Personol yn unol â hawliau'r unigolyn*". Serch hynny, ni allwn roi sicrwydd y byddwn yn llwyddo i atal y cais cyn iddo gael ei gyhoeddi gan y bydd wedi cyrraedd y cam argraffu tystysgrif yn barod o bosib.

Defnyddio'r Atodiad

Dyluniwyd yr Atodiad hwn i'w ddefnyddio law yn llaw â deddfwriaeth. Defnyddir y rhifau yn yr Atodiad hwn gan DBS fel pwynt cyfeirio ar gyfer delio ag ymholiadau ynglŷn â chymhwysedd. Os cysylltir â'ch sefydliad i gadarnhau cymhwysedd swydd, **rhaid** i chi roi manylion llawn rôl y swydd ac egluro sut mae'r deddfwriaeth berthnasol yn cefnogi'r cais am wiriad DBS. Nid yw rhoi'r rhif cyfeirnod heb dystiolaeth gefnogol yn ddigonol.

Ni fydd yr Atodiad yn cynghori a yw hi'n ofyniad gorfodol cael gwiriad DBS ar gyfer unrhyw rôl benodol. Bydd unrhyw ofyniad gorfodol am dystysgrifau DBS yn bodoli mewn deddfwriaeth a chanllawiau'n benodol i sector eich proffesiwn a bydd angen i chi ymchwilio i mewn i hyn ar wahân. Ni fydd yr Atodiad yn cynghori pa lefel o wiriad sy'n gymwys ar gyfer rôl neilltuol. Gellir canfod hyn drwy gyfeirio at Reoliadau (Cofnodion Troseddol) Deddf yr Heddlu 1997 y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol.

Eich cyfrifoldeb chi yw i sicrhau bod y penderfyniad ynglŷn â chymhwysedd gwiriad DBS yn seiliedig ar y deddfwriaeth sy'n galluogi'r gwiriad gael ei gynnal ar gyfer gweithgareddau a dyletswyddau'r cyfrifoldeb hwnnw.

Gall y dolenni canlynol fod o ddefnydd i chi.

[Home - The Department for Education](#)

[Department of Health - GOV.UK](#)

[Ofsted | Home page](#)

[Care Quality Commission | Homepage](#)



Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Atodiad

Cyfrifoldebau, Proffesiwn, Cyflogaeth, Swyddogaethau a Gweithfeydd yn gymwys ar gyfer gwiriadau DBS a gymerwyd o Rybudd (Eithriadau) 1975 Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974	Rhif Cyfeirnod
Unrhyw waith a ddiffinir ar hyn o bryd fel gweithgaredd a reoleiddir yn gysylltiedig â phlant o fewn yr hyn a olygir dan Atodlen 4 Rhan 1 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006	01
Unrhyw waith a ddiffiniwyd fel gweithgaredd a reoleiddir yn gysylltiedig â phlant o fewn yr hyn a olygir dan Atodlen 4 Rhan 1 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 cyn i adran 64 Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 ddod i rym ar 10 Medi 2012	02
Unrhyw waith a ddiffinir ar hyn o bryd fel gweithgaredd a reoleiddir yn gysylltiedig ag oedolion o fewn yr hyn a olygir dan Atodlen 4 Rhan 2 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006	03
Unrhyw waith a ddiffiniwyd fel gweithgaredd a reoleiddir yn gysylltiedig ag oedolion hyglwyf o fewn yr hyn a olygir dan Atodlen 4 Rhan 2 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf cyn i adrannau 65 a 66 Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 ddod i rym ar 10 Medi 2012	04
<p>Unrhyw swyddogaeth neu gyflogaeth sy'n ymwneud â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • darparu gwasanaethau gofal i oedolion hyglwyf; neu • gynrychioli oedolion hyglwyf neu ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i oedolion a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu a grëwyd dan unrhyw ddeddfwriaeth; <p>ac sy'n galluogi unigolyn, yn rhinwedd ei ddyletswyddau arferol, i gael mynediad at oedolion hyglwyf sy'n cael y gwasanaethau hynny</p>	05
Unrhyw waith mewn cyfrifoldeb rheoledig o fewn yr hyn a olygir yn Rhan 2 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000. Nid yw hyn yn cynnwys y rhai sy'n gweithio gyda rhai 16/17 oed sydd ar brofiad gwaith	06
Unrhyw waith mewn sefydliad addysg bellach neu Academi 16 i 19 oed lle mae dyletswyddau arferol y gwaith hwnnw'n golygu cyswllt rheolaidd â phlant	07
Unrhyw gyfrifoldeb arall sy'n golygu gofalu, hyfforddi, goruchwyllo neu fod yn bennaf gyfrifol am blant yn rheolaidd	08
Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol - Unigolyn a reoleiddir gan gorff y cyfeirir ato yn is-adran (3) o adran 25 Gorchymyn Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002	09
Bargyfreithiwr (yng Nghymru a Lloegr), cyfreithiwr	10
Cyfrifydd siartredig, cyfrifydd ardstyiedig	11
Milfeddyg	12
Actiwari	13
Cyfreithiwr tramor cofrestredig	14
Gweithredwr cyfreithiol	15
Penodiad barnwrol	16
Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ac unrhyw swydd neu gyflogaeth yn y Gwasanaeth Erlyn y Goron	17
<p>Swyddogion dynodedig ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> • llysoedd ynadon • ynadon heddwch • ardaloedd cyfiawnder lleol • clercod ynadon • cynorthwywyr clercod ynadon 	18



Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Cyfrifoldebau, Proffesiwn, Cyflogaeth, Swyddogaethau a Gweithfeydd yn gymwys ar gyfer gwiriadau DBS a gymerwyd o Rybudd (Eithriadau) 1975 Deddf Adsefydlu Troseddwy 1974.	Rhif Cyfeirnod
Pobl a gyflogir er mwyn cynorthwyo cwnstabiliaid Heddlu a sefydlwyd dan unrhyw ddeddfwriaeth	19
Unrhyw gyflogaeth yn gysylltiedig â: <ul style="list-style-type: none"> • charchar • canolfan remánd • canolfan waredu • cyfleuster dal dros gyfnod byr • canolfan gadw • sefydliad Borstal • sefydliad troseddwy ifanc • aelodau byrddau ymwelwyr (Cymru a Lloegr) 	20
Wardeiniaid traffig	21
Swyddogion prawf	22
Unrhyw gyflogaeth neu waith arall sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd ac sydd yn galluogi deilydd y gyflogaeth honno neu'r unigolyn sy'n gwneud y gwaith hwnnw i gael mynediad at bobl sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath fel rhan o'i ddyletswyddau arferol	23
Sefyllfa Gwasanaethau Ariannol - Golyga hyn bob cyfrifoldeb sy'n rhoi'r hawl i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol cyn hyn) neu'r awdurdod cymwys ar gyfer rhestradau ofyn cwestiynau eithriedig i gwrdd â'u hymrwymadau dan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000	24
Y rhai hynny sy'n gweithio o fewn Sefydliad Talu Awdurdodedig fel: <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarwyddwyr a rheolwyr • Deiliaid daliadau cymwys • Rheolwyr y Sefydliad Talu Awdurdodedig 	25
Unrhyw gyflogaeth yn y Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid (RSPCA) lle gall yr unigolyn a gyflogir ladd anifeiliaid mewn dull heb greulondeb neu wneud hynny fel rhan o'i ddyletswyddau	26
Comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) ac unrhyw swyddogaeth neu gyflogaeth o fewn eu gwasanaethau	27
Cyfarwyddwr ac unrhyw swyddogaeth neu gyflogaeth yn Swyddfa Erlyniadau Cyllid a Thollau	28
Unrhyw gyflogaeth sy'n ymwneud â monitro, er diben diogelwch plant, unrhyw gyfathrebu drwy'r rhyngwyd	29
Unrhyw unigolyn a ddynodir dan adran 2 Deddf Rheoli Traffig 2004	30
Y Cyfrifoldebau canlynol mewn Llys: <ul style="list-style-type: none"> • Clercod Barnwyr, ysgrifenyddion ac ysgrifenyddion cyfreithiol o fewn yr hyn a olygir dan adran 98 Deddf y Goruchaf Lys 1981(c) • Swyddogion llys a chontractwyr llys sydd, fel rhan o'u gwaith, yn cael cyswllt wyneb yn wyneb â barnwyr y Goruchaf Lys, neu fynediad at dai llety'r barnwyr hynny • Pobl sydd fel rhan o'u gwaith yn cael mynediad rheolaidd at wybodaeth bersonol yn ymwneud ag aelod adnabyddedig neu adnabyddadwy o'r farnwriaeth • Swyddogion llys a chontractwyr llys sydd, fel rhan o'u gwaith, un ai'n mynd i'r Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol neu i'r Llys Troseddol Canolog • Swyddogion diogelwch y llys a swyddogion diogelwch y tribiwnlys 	31



Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Cyfrifoldebau, Proffesiwn, Cyflogaeth, Swyddogaethau a Gweithfeydd yn gymwys ar gyfer gwiriadau DBS a gymerwyd o Rybudd (Eithriadau) 1975 Deddf Adsefydlu Troseddwyd 1974.	Rhif Cyfeirnod
<ul style="list-style-type: none"> • Contractwyr llys sydd, fel rhan o'u gwaith, yn cael mynediad heb oruchwyliaeth i mewn i lysoedd, swyddfeydd a chyfleusterau eraill a ddefnyddir mewn perthynas â'r llysoedd • Contractwyr, is-gontractwyr, ac unrhyw un arall sy'n gweithio dan awdurdod contractiwr neu is-gontractiwr o'r fath, sydd, fel rhan o'u gwaith, yn cael mynediad heb oruchwyliaeth i mewn i adeiladau tribiwnlys a chyfleusterau eraill, a ddefnyddir mewn perthynas â thribiwnlysoedd • Swyddogion a chontractwyr llys sy'n gweithredu mewn perthynas â gweinyddu a rheoli arian yn y llys, gan gynnwys rhoi, talu, danfon a throsglwyddo arian i mewn ac allan o unrhyw lys, a rheoleiddio tystiolaeth o unrhyw un o'r rhain, ynghyd â swyddogion a chontractwyr llys sy'n derbyn taliadau wrth geisio collfarnau neu orchymyn llys ynadon <p>Yr unigolion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Swyddogion llys sy'n gweithredu gwarantau llys sirol • Swyddogion gorfodi'r Uchel Lys • Siryfion ac is-siryfion • Rhingylliaid • Unrhyw unigolyn arall sy'n gweithredu gwritiau neu warantau'r Uchel Lys ac sy'n gwneud hynny dan awdurdod unigolyn a restrir yn (a) i (d) • Unigolion sy'n gweithredu gwritiau secwestraeth • Swyddogion gorfodi sifil yn ôl diffiniad adran 125A Deddf Llysoedd Ynadon 1980 • Unigolion sydd ag awdurdod i weithredu gwarantau dan adran 125B (1) Deddf Llysoedd Ynadon 1980, ac unrhyw unigolyn arall (ar wahân i gwnstabl) sydd ag awdurdod i weithredu gwarant dan adran 125 (2) Deddf 1980 • Unigolion sy'n gweithredu gorchmynion clampio, yn ôl paragraff 38(2) Atodlen 5 Deddf Llysoedd 2003(d) 	32
Unigolion sy'n dymuno cludo, meddiannu neu drosglwyddo arfau neu fwledi gwaharddedig dan adran 5 Deddf Drylliau 1968(c) - Giardiau arfog morwrol	33
Cynghorydd mewnfudo rheoledig sy'n darparu cyngor ar fewnfudo neu wasanaethau mewnfudo dan Adran 82(1) Deddf Lloches a Mewnfudo 1999(a). Mae hyn yn berthnasol hefyd i unigolion sy'n gweithredu ar ran unigolyn cofrestredig o'r fath neu dan eu goruchwyliaeth	34
Staff sy'n gweithio i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus gyda mynediad at ddata yn ymwneud ag oedolion hyglwyf	35
<p>Unrhyw gyflogaeth neu waith arall lle mae'r dyletswyddau arferol:</p> <ol style="list-style-type: none"> a) yn ymwneud â gofalu, hyfforddi, goruchwyllo neu fod yn bennaf gyfrifol am unigolion dan 18 oed sy'n gwasanaethu yn llynges, byddin neu awyrlu'r goron; neu'n b) yn cynnwys goruchwyllo neu reoli unigolyn a gyflogir neu sy'n gweithio mewn swyddogaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (a) 	36
Unigolyn sy'n byw ar safle lle darperir gwasanaeth gofal plant neu ofal dydd neu sy'n gweithio'n rheolaidd ar y safle ar adeg pan ofalir am y plant	37
Unigolyn sy'n byw yn yr un cartref ag unigolyn sy'n cael ei asesu am ei addasrwydd am swydd i weithio gyda phlant ac sy'n byw ar y safle lle byddai'r gwaith gyda'r plant yn digwydd yn arferol	38
Ceisiadau am fabwysiadwyr posibl, gwarcheidwaid arbennig neu unrhyw un sy'n byw mewn cartref mabwysiadu yng Nghymru a Lloegr	39



Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Cyfrifoldebau, Proffesiwn, Cyflogaeth, Swyddogaethau a Gweithfeydd yn gymwys ar gyfer gwiriadau DBS a gymerwyd o Rybudd (Eithriadau) 1975 Deddf Adsefydlu Troseddwy 1974.	Rhif Cyfeirnod
Ceisiadau am ofalwyr maeth posibl, neu unrhyw un sy'n byw yn y cartref maeth yng Nghymru a Lloegr	40
Unigolion yn ceisio awdurdod gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref i ddod yn swyddogion chwilio awdurdodedig	41
Am ddyfarniadau contractau gwaith cyhoeddus, cyflenwadau cyhoeddus a gwasanaeth cyhoeddus yn unol â Chyfarwydddeb 2004/17/EC a 2004/18/EC y Senedd Ewropeaidd a'r Cyngor Mawrth 2004(a)	42
Stiwardiaid pêl droed, goruchwylwyr neu reolwyr stiwardiaid pêl droed	43
Rheolwr Corff Gwasanaeth Cyfreithiol Awdurdodedig	44
Y rhai hynny sy'n gweithio i Strwythurau Busnes Amgen fel: <ul style="list-style-type: none"> Pennaeth Cyllid a Gweinyddu corff trwyddedig cymeradwy dan atodlen 11 Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 Pennaeth Practis Cyfreithiol corff trwyddedig cymeradwy dan atodlen 11 Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 Perchnogion corff trwyddedig cymeradwy dan atodlen 13 Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 	45
Unrhyw gyflogaeth neu waith arall a wneir yn arferol ar safle a gymeradwywyd dan atodlen 9 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000	46
Unrhyw unigolyn sydd wedi gwneud cais i fod yn aelod o Gymdeithas Prif Wneuthurwyr Cloeon	47
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, ei ddirprwy ac unrhyw un a benodwyd gan y Comisiynydd, i'w gynorthwyo yn ei waith neu sydd wedi eu hawdurdodi i weithio ar ei ran	48
Comisiynwyr y Comisiwn Hapchwarae ac unrhyw swyddogaethau neu gyflogaeth o fewn eu gwasanaeth	49
Comisiynwyr Heddlu a Throseddu	50

Trwyddedau'n gymwys ar gyfer gwiriadau DBS a gymerwyd o Orchymyn (Eithriadau) 1975 Deddf Adfer Troseddwy 1974	Rhif Cyfeirnod
Ar gyfer dibenion trwyddedu cerbydau gyrwyr tacsï a hurio preifat	51
Ar gyfer dibenion trwyddedu'r Loteri Cenedlaethol	52
Ar gyfer trwyddedau a gyhoeddwyd dan Adran 25 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (Mae hyn yn gysylltiedig ag unigolion dan 18 oed sy'n teithio dramor i berfformio neu er dibenion gwneud elw ohonynt)	53
Ar gyfer trwyddedau a gyhoeddwyd dan adran 8 Deddf Diwydiant Diogelwch Preifat 2001	54
Ar gyfer cael neu ddal trwydded weithredu neu bersonol dan Ran 5 neu 6 Deddf Hapchwarae 2005	55
Ar gyfer cael neu ddal trwydded weithredu neu bersonol dan reoliad 5 Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 2001, erthygl 3(2) Rheoliad 2004/273/EC (b) neu erthygl 6(1) Rheoliadau 2005/111/EC(c)	56